

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Gwasanaeth Ymgynghorol
Beichiogrwydd Prydain (BPAS)

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2018

Dyddiad cyhoeddi: 17 Awst 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	23
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	Error! Bookmark not defined.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Wasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS) ar 16 Mai 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un adolygydd cymheiriaid clinigol a rheolwr arolygu AGIC.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roeddem yn fodlon bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd croesawgar a phrofiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd cadw cofnodion, archwiliadau clinigol a gofal cleifion yn dda.

Roedd rheolaeth, hyfforddiant ac arfarniadau staff yn dda.

Roedd rhai ardaloedd o'r adeilad yn edrych wedi gwisgo a byddent yn elwa ar gael eu hailaddurno.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwnaethom arsylwi ar ryngweithio gofalgar, cadarnhaol a phroffesiynol rhwng staff a chleifion
- Roedd gwybodaeth i gleifion yn gyfredol ac yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol
- Roedd cofnodion cleifion yn fanwl ac o safon dda
- Roedd strwythur rheoli clir yn cael ei ddangos, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi gan staff uwch

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Tacluso rhai ardaloedd trwy symud blychau i ardaloedd storio
- Darparu ategion wedi'u gosod ar waliau mewn ardaloedd clinigol ar gyfer storio gynau a menig amddiffynnol
- Mae angen i staff sicrhau wrth ddefnyddio stampiau enwau ar gofnodion cleifion fod y stamp yn ddarllenadwy
- Mae angen diweddarau cyfeiriad AGIC ar y poster cwynion
- Byddai'r clinig yn elwa o ailaddurno

Gwnaethom nodi rhai mân achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn o ran profiad cleifion a rheoli amgylchedd diogel. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Ymgynghorol Beichiogrwydd Prydain (BPAS) wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol ar y Llawr Cyntaf, Elgin House, 106–107 Stryd y Santes Fair, Caerdydd, CF10 1DX. Mae'n rhan o rwydwaith o wasanaethau cofrestredig ledled y DU.

Mae BPAS yn elusen sy'n darparu cefnogaeth, cwnsela a gofal i fenywod sy'n wynebu triniaeth terfynu beichiogrwydd am sawl rheswm gwahanol, yn ogystal ag i ddynion sy'n cael triniaeth diffrwythloni (fasectomi). Mae hefyd yn darparu cyngor a chefnogaeth ar atal cenhedlu. Dyma brif elusen y DU ar ofal terfynu beichiogrwydd, gan arbenigo mewn triniaeth gyfrinachol a diogel. Mae'n derbyn atgyfeiriadau preifat a gan y GIG.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 4 Ebrill 2007 ac nid yw wedi'i gofrestru ar gyfer aros dros nos.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff o ddeg: y rheolwr, llawfeddyg, cwnselydd a gofal cleientiaid (cymorth i'r cwnselydd), nyrs arwain, dau ymarferydd bydwaig (un llawn amser ac un rhan amser), ymarferydd nyrsio, a dau weithiwr cymorth gofal iechyd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau, sy'n cynnwys y canlynol:

Amod 1

- Terfynu beichiogrwydd (i gynnwys ymgynghoriad ac asesiad) i gleifion 15 (pymtheg) oed neu'n hŷn
- Ymgynghoriad a chyngor ynghylch terfynu beichiogrwydd i gleifion 13 (tri ar ddeg) oed neu'n hŷn
- Ymgynghoriad am fasectomi, triniaeth a gwasanaethau dilynol, gan gynnwys dadansoddi semen, i gleifion 18 (deunaw) oed neu'n hŷn

Amod 2

Dim ond y dulliau terfynu canlynol y gellir eu darparu:

- Erthylladau meddygol cynnar ar gyfer cyfnod beichiogrwydd o hyd at 10 (deg) wythnos

- Allsugno gwactod â llaw gyda thawelydd ymwybodol dewisol (gyda midazolam a ffentanyl mewnwythiennol) yn gyfochr ag anesthesia serfigol lleol ar gyfer beichiogrwydd hyd at 14 wythnos
- Allsugno gwactod trydanol gyda thawelydd ymwybodol dewisol yn gyfochr ag anesthesia serfigol ar gyfer beichiogrwydd hyd at 18 wythnos

Amod 3

Ni ddylai nifer y triniaethau terfynu (erthyladau) a gyflawnir yn y sefydliad fod yn fwy na 50 (hanner cant) mewn unrhyw gyfnod o 7 (saith) diwrnod.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Yn gyffredinol, roeddem yn fodlon fod y gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i gleifion a oedd yn benodol i'w hanghenion unigol eu hunain.

Rhaid ychwanegu cyfeiriad AGIC at y wybodaeth ar sut i leisio pryder.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Oherwydd natur y gwasanaeth, a'r nifer sy'n mynychu, cafodd cyfanswm o bedwar eu cwblhau. Gwnaethom hefyd edrych ar y sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiaduron adborth a gyhoeddwyd gan y gwasanaeth.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Canfuom fod amrywiaeth o wybodaeth ar gael yn yr ardal aros a oedd yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Mewn sampl o gofnodion cleifion, canfuom dystiolaeth o wybodaeth fanwl a phenodol a ddarparwyd i gleifion, yn dibynnu ar eu hanghenion unigol.

Roedd cleifion yn cael cynnig llyfrynnau gwybodaeth addysgiadol a manwl iawn naill ai ar yr ymweliad cyntaf neu os gofynnwyd amdanynt drwy'r post. Mae'r llyfrynnau ar gyfer pob rhan o'r DU a gwnaethom awgrymu bod nodyn yn cael ei roi y tu fewn i gleifion sy'n byw yng Nghymru fel eu bod yn ymwybodol o gyfeiriad AGIC os bydd arnynt ei angen. Cytunodd y rheolwr cofrestredig a'r rheolwr ardal i hyn.

Urddas a pharch

Gwelsom y siaredir â chleifion mewn modd proffesiynol, cwrtais a pharchus. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff yn gwrtais, yn garedig ac yn sensitif wrth gynnal gofal a thriniaeth. Roedd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal mewn ystafell ymgynghori breifat, er mwyn sicrhau bod pob trafodaeth yn sicrhau preifatrwydd i gleifion. Canfuom fod yr ystafelloedd triniaeth ar gau gydag arwydd "mewn defnydd" pan oedd cleifion yn derbyn triniaeth i atal mynediad heb ganiatâd.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Cafodd sampl o gofnodion pump o gleifion eu hadolygu ac roeddent yn dangos bod gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu i gleifion, yn dibynnu ar eu hanghenion unigol eu hunain. Canfuom fod y wybodaeth hon yn berthnasol ac yn gyfredol ac yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol. Roedd cleifion a oedd wedi cwblhau holiadur hefyd yn cytuno eu bod yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom fod caniatâd llafar ac ysgrifenedig i driniaeth yn cael ei gasglu gan gleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd posteri a thafleuni gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â'r driniaeth a gynigir yn y clinig. Fodd bynnag, dim ond yn Saesneg roedd y wybodaeth hon ar gael. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn derbyn gwybodaeth mewn modd yr oeddent yn ei ddeall ac felly roeddent yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus.

Roedd bwletin chwarterol "Connect: Staff Voice" i staff, a oedd yn dod â holl ranbarthau'r elusen ynghyd gyda gwybodaeth a chefnogaeth gyfredol.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd staff wrthym fod digon o amser i gefnogi a gofalu am gleifion yn briodol.

Roedd cleifion â phroblemau synhwyraidd neu anghenion ychwanegol / anawsterau gwybyddol yn cael cynnig gwybodaeth wedi'i haddasu i'w hanghenion penodol, h.y. Braille a phrint bras. Gallai'r gwasanaeth hefyd gael mynediad at wasanaethau cyfieithu trwy'r llinell iaith. Gwnaethom drafod y defnydd o'r System Gyfathrebu Cyfnewid Llundain (PECS) ar gyfer cleifion ag anghenion ychwanegol a sut y gallai hon fod o gymorth hefyd gyda holl anghenion cyfathrebu. Roedd y rheolwr cofrestredig yn agored i archwilio'r llwybr cyfathrebu hwn.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Gwelsom fod y gwasanaeth yn ceisio mynd ati i gael adborth gan gleifion ar y driniaeth a ddarperir iddynt, trwy holiaduron papur. Gwelsom fod dadansoddiad o adborth cleifion yn cael ei gynnal bob chwarter a bod hwn yn cael ei wneud yn y brif swyddfa. Roedd yn cael ei gynnwys yn y bwletin staff ond nid o fewn y canllaw i gleifion. Ymdrinnir â hyn yn yr adran “Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth”.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roeddem yn fodlon fod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth mewn modd diogel, sensitif a phroffesiynol a bod cofnodion cleifion yn drylwyr ac yn gynhwysfawr.

Gwnaethom argymhell i rai ardaloedd o'r adeilad gael eu tacluso ac y byddai'r amgylchedd yn elwa o gael ei addurno.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith er diogelwch a lles y staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth a'r bobl sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Fodd bynnag, er ei fod yn lân, canfuom fod yr adeilad yn edrych yn dreuliedig mewn mannau, yn benodol yr ardal aros, yr ystafelloedd triniaeth ac ystafell y staff. Byddai'r rhain yn elwa o dacluso blychau (yn enwedig yr ystafell adfer) ac ailaddurno. Mae cleifion yn mynychu'r clinig ac yn disgwyl gweld amgylchoedd sy'n adlewyrchu safon y gofal sy'n cael ei chynnig.

Roedd yr elusen wedi datblygu swyddogaeth hyrwyddwr diogelwch cleifion ar draws ei gwasanaethau â chyfrifoldeb i sicrhau diogelwch clinigol. Roedd y nyrs arwain wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn y gwasanaeth hwn. Roedd gwaith yn mynd rhagddo (a oedd eisoes wedi cychwyn newidiadau cenedlaethol) yn ymwneud â llwybrau amdriniaethol¹ a rheoli cleifion sy'n dirywio. Mae

¹ Nod llwybrau amdriniaethol yw darparu'r gofal gorau posibl i gleifion cyn, yn ystod ac ar ôl llawdriniaeth.

effeithiolrwydd y newidiadau hyn eisoes wedi cael ei asesu, gan ddangos canlyniadau da. Yn ogystal, nodwyd archwiliadau o'r troliâu brys a gwelsom fod hyn eisoes ar waith yn y gwasanaeth hwn oherwydd gwelsom fod mynediad i droli dadebru brys wedi'i stocio'n dda (a oedd yn cynnwys diffibriliwr allanol awtomatig) pe bai argyfwng. Roedd cyffuriau ar gyfer y troli hwn yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo a dim ond ar ddiwrnodau triniaeth yr oeddent yn dod allan. Roedd rhestr wirio hefyd i sicrhau bod y stoc yn cael ei hailgyflenwi ac o fewn dyddiad defnydd y gwneuthurwr.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Canfuom fod y gwasanaeth yn ymarfer technegau atal a rheoli heintiau da. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol a staff yn ymarfer “yn ddinoeth o dan y penelin”² i alluogi golchi dwylo effeithiol – a gwelsom dystiolaeth o hylendid dwylo da. Roedd yr holl offer meddygol yn offer untro.

Gwnaethom awgrymu y byddai ategion wedi'u gosod ar waliau ar gyfer y cyfarpar diogelu personol yn fuddiol yn yr ystafelloedd clinigol. Roedd y rheolwr cofrestredig a'r rheolwr ardal yn cytuno y byddai hyn yn gwella mynediad i staff.

Roedd chwiliedyddion yn cael eu dadheintio cyn y defnydd cyntaf o'r dydd, rhwng cleifion, ac yn dilyn y claf olaf, gan ddefnyddio ewyn a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer dadheintio lefel uchel o chwiliedyddion uwchsain ceudodau mewnol³ a system aml-lanhau ddilynol. Yna, roedd yr offerynnau'n cael eu labelu â sticer gwyrdd i ddangos i'r staff a'r cleifion fod yr offeryn wedi cael ei ddadheintio a'i lanhau'n briodol.

Disgrifiodd y staff yn fanwl y protocol glanhau ar waith rhwng cleifion, a oedd yn hyrwyddo trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol. Gwelsom hefyd dystiolaeth o amserlenni archwilio a glanhau. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

² Arfer da cydnabyddedig sy'n galluogi staff i olchi eu dwylo a'u harddyrnau yn effeithiol.

³ Offer a ddefnyddir ar gyfer triniaethau uwchsain mewnol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr adeilad yn rhydd o annibendod.

Dylai darparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gadw mewn cyflwr da.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried darparu ategion wedi'u gosod ar waliau ar gyfer cyfarpar diogelu personol mewn ardaloedd clinigol.

Rheoli meddyginiaethau

Nid oedd unrhyw bryderon ynglŷn â rheoli meddyginiaethau. Gwelsom waith cadw cofnodion a gweinyddu rhagorol mewn perthynas â meddyginiaethau. Roedd cymorth fferyllol trwy fferyllydd wedi'i leoli yn y brif swyddfa.

Roedd presgripsiynau electronig gydag arweiniad hawdd ei ddilyn, a oedd yn cael eu harchebu o'r brif swyddfa ond yn cael eu rheoli ar y safle. Roedd tystiolaeth o waith da o ran cylchdro'r stoc a rhagnodi ar-lein trwy fynediad o bell. Roedd llofnodion yn eglur ac yn hawdd eu hadnabod ac roedd pob cofnod wedi'i lofnodi a'i ddyddio. Roedd gwybodaeth cleifion yn ddarllenadwy ac roedd adran yn y nodiadau petai cleifion yn gofyn i gael cymryd eu meddyginiaeth eu hunain.

Roedd polisïau rheoli meddyginiaethau effeithiol, y gwnaethom eu gweld ar-lein. Pan wnaethom siarad â staff, roeddent yn gwbl gyfarwydd â phroses ac arweiniad.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol mewn cypyrddau ac oergelloedd wedi'u gloi. Roedd tymheredd yr oergelloedd yn cael ei fonitro bob dydd er mwyn sicrhau'r amodau gorau posibl ar gyfer storio meddyginiaethau y mae angen eu cadw mewn amgylchedd oer. Roedd cyffuriau a reolir yn cael eu gwirio'n ddyddiol gan ddwy nyrs gofrestredig, a oedd yn llofnodi ar eu cyfer.

Roedd y gwasanaeth yn dilyn arweiniad arfer gorau ac yn defnyddio rhestrau gwirio a llwybrau gofal UKMEC.⁴

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu oedolion a phlant, yn enwedig o ran yr ystod oedran gofrestrdig ar gyfer ymgynghoriadau. Roedd llwybrau atgyfeirio priodol a gwelsom systemau cyfathrebu da rhwng y gwasanaeth ac asiantaethau allanol.

Rheoli gwaed

Gwelsom sgrinio priodol a pholisïau/protocolau ar gyfer defnyddio cynhyrchion gwaed gwrth-D.⁵ Gwelsom wiriadau adnabod llym ar y profion gwaed, a gynhaliwyd gan ddwy nyrs.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd y gwasanaeth yn gallu defnyddio peiriant uwchsain,⁶ a oedd o dan gontract cynnal a chadw blynyddol, a gwelsom dystiolaeth o wiriadau cynnal a chadw priodol i sicrhau ei fod yn ddiogel ei ddefnyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

⁴ Mae UKMEC yn helpu clinigwyr i benderfynu pa ddulliau atal cenhedlu y gallant eu hargymell yn ddiogel yn seiliedig ar gyflyrau meddygol cleifion yn eu gofal.

⁵ Mae gan bobl sy'n rhesws positif sylwedd o'r enw antigen D ar eu celloedd gwaed coch. Os ydych chi ydych chi bechiogrwydd yn rhesws positif yna mae cyfle y bydd y ffetws hefyd yn rhesws positif, hyd yn oed os yw'r claf yn rhesws negatif. Os yw eich gwaed rhesws negatif yn cymysgu ar unrhyw adeg o'r bechiogrwydd â gwaed y ffetws, a allai fod yn rhesws positif, efallai y bydd mecanwaith amddiffyn eich corff yn ffurfio gwrthgyrff yn erbyn yr antigen D. Gall hyn ddigwydd ar wahanol adegau o feichiogrwydd, gan gynnwys erthyliad, a bydd hyn yn bosibl yn niweidiol i unrhyw fabanod y byddwch yn eu cael yn y dyfodol sy'n rhesws positif oherwydd bod y gwrthgyrff yn aros yn eich system.

⁶ Techneg delweddu ddiagnostig yn seiliedig ar ddefnyddio uwchsain.

Gwnaethom edrych ar sampl o bump o gofnodion cleifion, a chanfuom eu bod o safon dda iawn. Roeddent yn fanwl ac yn drylwyr, gan ddarparu manylion cynhwysfawr o'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd i gleifion.

Gwelsom ddefnydd o restrau gwirio UKMEC, rhestrau gwirio caniatâd a gynlluniwyd ymlaen llaw, a thystiolaeth ddogfennol dda o unrhyw wybodaeth ychwanegol i nodiadau a chan bwy. Roedd rhestrau gwirio diogelwch llawfeddygol clir a chynlluniau gofal nyrsio penodol ar gyfer triniaethau.

Fodd bynnag, gwelsom y defnydd o stampiau inc, a oedd yn cyd-fynd â llofnodion, i nodi enw a dynodiad yr aelod o staff. Nid oedd y stampiau bob amser yn ddarllenadwy ac felly roedd yn anodd canfod pwy oedd wedi cwblhau'r gwiriad.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut roedd y gwasanaeth yn rhoi sylw i ganlyniadau cleifion ar gyfer triniaethau penodol sy'n cael eu cynnig, fel ffordd o fesur effeithiolrwydd y gofal a ddarperir. Gwnaethom gydnabod hyn fel maes o arfer da.

Gwelsom y cynigid gwasanaeth cwnsela heb gyfyngiad amser cyn ac ar ôl pob triniaeth. Roedd hyn yn cynnig amser i'r claf sicrhau nad oedd penderfyniadau wedi'u rhuthro a bod digon o amser wedi'i gymryd i wneud dewisiadau gwybodus. Mae llawer o gleifion yn mynychu i derfynu beichiogrwydd oherwydd anomaleddau ffetysol neu oherwydd erthyliad naturiol ac mae cwnsela a chymorth penodol yn cael eu cynnig o dan yr amgylchiadau hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau, os yw'r gwasanaeth yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r stamp inc, ei fod yn ddarllenadwy bob amser.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Trwy drafodaethau gyda'r nyrs arwain a'r rheolwr cofrestredig, gwnaethom nodi bod y gwasanaeth yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau gwella ansawdd. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriad iechyd a diogelwch wythnosol o'r amgylchedd i helpu i nodi unrhyw beryglon neu feysydd posibl i'w gwella,

cynnal holiaduron i gleifion, system Datix ⁷ ar gyfer cofnodi digwyddiadau sy'n cael ei goruchwyllo gan y brif swyddfa, ac archwiliadau rheoli heintiau a meddyginiaeth ymysg llawer o bethau eraill.

Mae'r cynllun llywodraethu i fonitro ystod o feysydd yn y gwasanaeth yn cael ei reoli'n lleol gan y rheolwr cofrestredig ond caiff ei oruchwyllo gan y brif swyddfa.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Canfuom fod y gwasanaeth yn defnyddio system gyfathrebu electronig o bell, gan ganiatáu i staff clinigol gael mynediad diogel i wybodaeth a chanlyniadau cleifion i ffwrdd o'r safle. Golygai hyn fod staff clinigol yn gallu dehongli gwybodaeth yn gyflym a chefnogi staff o fewn y gwasanaeth heb fod yn bresennol yn gorfforol. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi arwain at staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi ar y safle hyd yn oed pan nad oedd uwch-staff clinigol yn bresennol yn gorfforol. Mae hefyd yn golygu y gellir cael mynediad prydlon at benderfyniadau y mae angen eu hawdurdodi gan ddau feddyg.

Rheoli cofnodion

Canfuom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad heb ganiatâd. Roedd cofnodion papur wedi'u lleoli mewn cabinet a ellir ei gloi, ac roedd cofnodion electronig wedi'u gwarchod â chyfrinair.

⁷ Mae Datix yn feddalwedd ar y we sy'n helpu sefydliadau i reoli eu risgiau, eu digwyddiadau a phrofiad eu defnyddwyr gwasanaeth.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu a monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Canfuom fod y staff yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau a'u bod yn cael eu cefnogi gan strwythur rheoli clir.

Roedd hyfforddiant ac arfarniadau staff yn dda a dywedodd staff wrthym eu bod yn cael cymorth i fynychu hyfforddiant allanol a fyddai o fudd i'w datblygiad. Roedd cefnogaeth i ailddilysu cofrestriad proffesiynol yn amlwg.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y tîm yn BPAS yn ymddangos fel tîm bychan sefydledig ac roeddent yn dangos llinellau cyfrifoldeb clir. Roedd staff yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Canfuom fod y gefnogaeth a oedd yn cael ei chynnig i staff ac argaeledd y rheolwr cofrestredig yn gadarnhaol.

Gwnaethom adolygu datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y gwasanaeth. Canfuom fod angen mân newidiadau i'r canllaw i gleifion, er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC a chrynodeb o adborth gan gleifion. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, gan ddarparu gwybodaeth fanwl i'r staff a'r cleifion. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd i helpu i sicrhau bod gan staff a chleifion fynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod manylion cyswllt AGIC a chrynodeb o ganfyddiadau adborth cleifion yn cael eu cynnwys yn y canllaw i gleifion.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwynion yn amlinellu'r broses ar gyfer cleifion pe baent yn dymuno lleisio pryder. Roedd y wybodaeth hon hefyd wedi'i chynnwys yn y canllaw i gleifion, a oedd hefyd yn cael ei arddangos yn yr ardal aros i gleifion ei darllen. Fodd bynnag, nid oedd y naill neu'r llall yn cynnwys cyfeiriad AGIC. Canfuom fod gan y gwasanaeth broses addas ar waith ar gyfer delio â chwynion, a chanfuom hefyd dystiolaeth fod y gwasanaeth wedi dangos dysgu a gwneud newidiadau o ganlyniad i gŵyn yn cael ei gwneud.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod manylion cyswllt AGIC yn cael eu cynnwys yn y canllaw i gleifion ac ar y poster yn yr ardal aros.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom fod tîm staff sefydlog nad oedd wedi newid yn sylweddol ers peth amser. Bu newid yn yr uwch-reolwyr o ganlyniad i greu swydd y rheolwr ardal. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol.

Roedd gan y gwasanaeth raglen hyfforddiant ddiffiniedig ar gyfer staff clinigol a'r rhai nad ydynt yn glinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant a fyddai'n datblygu eu gwybodaeth a'u harbenigedd.

Dywedodd staff nyrsio a bydwreigiaeth wrthym eu bod yn cael pob cyfle i gynnal statws eu cofrestriad gyda'u corff rheoledig.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau staff a chanfuom yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ymarfer cyflogaeth diogel. Canfuom fod gan y staff gontractau cyflogaeth, disgrifiad swydd, ac adroddiad gan y Gwasanaeth

Datgelu a Gwahardd. Gwelsom dystiolaeth o gadarnhau statws cofrestriadau a chymwysterau proffesiynol, a oedd yn cael eu gwirio'n barhaus.

Gwelsom fod arfarniadau staff yn cael eu cynnal a'u bod yn gyfredol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bôn yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yn ystod yr arolygiad.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: BPAS

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella ar yr achlysur hwn				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr adeilad yn rhydd o annibendod. Dylai darparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gadw mewn cyflwr da.	22. Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd 4. Trefniadau cynllunio ar	Cymerwyd camau i adolygu'r trefniadau ar gyfer storio eitemau o fewn pob ardal glinigol yn dilyn yr argymhellion a roddwyd ar ôl yr arolygiad. Mae gorchuddion ffenestr newydd yn	VR VR	Ar unwaith I'w gosod erbyn Medi 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gyfer argyfwng	<p>cael eu harchebu ar gyfer pob ystafell.</p> <p>Bydd llenni untro yn cael eu gosod yn lle'r llenni sy'n bodoli eisoes ym mhob cilfan adfer ac ystafell glinigol.</p> <p>Cytunwyd ar amserlen waith ar gyfer ardaloedd a nodwyd i ddiweddarau'r addurniadau.</p>		<p>I'w gosod erbyn Medi 2018</p> <p>Erbyn diwedd 2018</p>
Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried darparu ategion wedi'u gosod ar waliau ar gyfer cyfarpar diogelu personol mewn ardaloedd clinigol.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae dosbarthwyr cyfarpar diogelu personol yn cael eu caffael ar hyn o bryd a byddant yn cael eu gosod ym mhob ardal glinigol.	VR	I'w gosod erbyn diwedd 2018
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau, os yw'r gwasanaeth yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r stamp inc, ei fod yn ddarllenadwy bob amser.	7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Mae stampiau newydd wedi'u harchebu ac mae archwiliadau ansawdd misol yn cael eu cynnal i fonitro safon y gwaith o gadw cofnodion.	VR	Awst 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod crynodeb o ganfyddiadau adborth cleifion yn cael ei gynnwys yn y canllaw i gleifion.	1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Yn dilyn eglurhad gan dîm arolygu AGIC o ran gofyniad canllaw i gleifion, bydd canllaw lleol yn benodol i uned Caerdydd yn cael ei gynhyrchu a bydd hyn yn cynnwys yr holl ddogfennau fel y'u rhestrir yn y rheoliadau. Bydd crynodeb chwarterol o holl farn cleientiaid a gasglwyd yn cael ei gynhyrchu a'i arddangos yn y canllaw hwn.	VR	Medi 2018
Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod manylion cyswllt AGIC yn cael eu cynnwys yn y canllaw i gleifion ac ar y poster yn yr ardal aros.	23 Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau	Camau a gymerwyd yn dilyn yr arolygiad: Mae sticer wedi'i osod erbyn hyn ym mhob canllaw BPAS i gleifion gyda manylion cyswllt AGIC ar gyfer pob cleient. Mae'r poster hefyd wedi cael ei ddiweddarau gyda'r manylion priodol.	VR	Cwblhawyd 1 Mehefin 2018

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Vivienne Rose

Swydd: Rheolwr yr uned driniaeth

Dyddiad: 6 Gorffennaf 2018